Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Claire Marchant
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Angel Street
CF31 4WB

Ein cyf / Our ref: BCBC IC 23.06.2025

Dyddiad / Date: 04/09/2025

Annwyl Gyfarwyddwr,

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ein hymweliad Archwiliad Gwelliant â gwasanaethau plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Mehefin 2025.

1. Cyflwyniad

1.1 Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Mai 2022. Ym mis Rhagfyr gwnaethom gwblhau Archwiliad Gwelliant er mwyn monitro meysydd i'w gwella a gwnaethom nodi *'mae'n rhaid i'r awdurdod lleol barhau i roi sicrwydd iddo'i hun ynghylch statws blaenoriaeth, cyflymder, ansawdd, cyflawniad, ac effaith ei weithgarwch gwella'*.

1.2 Ym mis Mehefin 2023, cynhaliodd AGC ac arolygiaethau partner Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gwnaethom ganfod fod gan arweinwyr a phartneriaid weledigaeth gyffredin ac ymagwedd gadarnhaol at ddiogelu. Roedd yr awdurdod lleol a'i bartneriaid wedi cymryd camau i ddysgu gwersi yn dilyn digwyddiadau critigol, roedd cynlluniau uchelgeisiol ar waith i wneud gwelliannau, ac roedd yn bwysig rheoli'r newidiadau hyn gyda goruchwyliaeth ofalus.

1.3 Mae AGC yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) a'r safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol o ran cefnogi, mesur a chynnal gwelliannau i bobl.

1.4 Roedd yr Archwiliad Gwelliant hwn yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod y gweithgareddau arolygu yn 2022 a 2023. Mae'r tabl isod yn crynhoi ein canfyddiadau ac mae rhagor o fanylion ar gael ym mhob rhan o'r adroddiad.

Egwyddor	**Meysydd i'w gwella a nodwyd yn 2022-23**	**Cynnydd a nodwyd yn ystod y Archwiliad Gwelliant hwn**
Pobl	Ceisio, clywed a chofnodi llais y plentyn	Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal
Pobl	Mae pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt yn gyson	Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – angen cymryd camau pellach
Pobl	Recriwtio a chadw gweithlu	Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal
Pobl	Cofnodi demograffeg ac unigolion cyswllt	Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal
Pobl	Goruchwyliaeth rheolwyr	Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal
Pobl	Cymorth, goruchwyliaeth a hyfforddiant staff	Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal
Atal	Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Caiff pobl y cymorth cywir, ar yr adeg gywir	Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – angen cymryd camau pellach
Atal	Digonolrwydd lleoliadau	Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – angen cymryd camau pellach
Partneriaethau	Trothwyon ar gyfer cymorth cynnar a gwasanaethau statudol	Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal
Partneriaethau	Dysgu o adolygiadau ac archwiliadau	Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal
Llesiant	Cydymffurfio â chyfrifoldebau statudol	Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal
Llesiant	Trefniadau ar gyfer cyswllt dan oruchwyliaeth rhwng plant a'u teuluoedd	Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal

Llesiant	Nodi achosion o gam-fanteisio ar blant ac ymateb iddynt	Rhai gwelliannau wedi'u gwneud – angen cymryd camau pellach
Llesiant	Sicrhau statws blaenoriaeth, cyflymder, ansawdd, cyflawniad, ac effaith ei weithgarwch gwella	Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal

2. Rhestr Terminoleg a Diffiniadau o Niferoedd

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl o ddiffiniadau o niferoedd yn Atodiad dau.

3. Crynodeb o Ganfyddiadau'r Archwiliad Gwelliant

3.1 Mae arweinwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) wedi blaenoriaethu gwasanaethau plant yn gyson er mwyn cefnogi gwelliannau parhaus ac amserol. Mae hyn wedi gwella ansawdd a chyflawniad swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn sylweddol. Mae'r awdurdod lleol wedi newid o fod â gweithlu gwan a diffygion critigol mewn capasiti, i sefyllfa o sefydlogrwydd yn gyffredinol. Dyma'r newid mwyaf sylweddol a wnaed ers 2022-23, sy'n ategu capasiti'r awdurdod lleol i fwrw ymlaen â gwelliannau a'u cynnal. **Llwyddwyd i sicrhau'r gwelliant cadarnhaol hwn drwy ganolbwyntio'n barhaus ar lesiant y gweithlu ac ansawdd ymarfer.**

3.2 Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo dysgu ac yn cymryd camau i wneud gwelliannau mewn ffordd amserol. Yn dilyn digwyddiadau critigol, mae'r awdurdod lleol wedi blaenoriaethu gwelliannau i drefniadau diogelu. Canfu JICPA 2023 fod Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) Pen-y-bont ar Ogwr yn hwyluso cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac yn annog partneriaethau i gydweithio'n agos. Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwneud mwy o welliannau mewn perthynas â systemau TG sy'n cefnogi trefniadau rhannu gwybodaeth a digonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i bartneriaid. Mae'r gwelliannau hyn wedi cael eu gwneud gan fod system TG well ar waith ac mae gan bartneriaid adnoddau digonol.

3.3 Yn 2023-24 datblygodd yr arweinwyr gynllun strategol tair blynedd ar gyfer gwasanaethau plant a theuluoedd[1] (o dan y teitl 'Ystyried y Teulu') ac achos busnes manwl dros gael arian ychwanegol. Cafwyd cefnogaeth gorfforaethol gan y cyngor ar gyfer hyn ac felly llwyddwyd i ddatblygu swyddi ychwanegol, gan gynnwys pum Prif Swyddog sy'n cefnogi timau rheoli achosion, yn rhoi strategaethau cymorth i deuluoedd ar waith, yn goruchwylio gwasanaethau cymorth cynnar, yn goruchwylio prosesau comisiynu a lleoliadau, ac yn ysgogi camau i drawsnewid gwasanaethau plant a theuluoedd. Mae swyddogion ac

[1] Ystyried y Teulu - Gwella Canlyniadau i Blant a Theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr

ymgynghorydd Arwyddion Diogelwch hefyd i ddatblygu ymarfer mewn perthynas â sicrhau ansawdd, polisi, a chyfranogiad/rhianta corfforaethol. **Mae'r gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol gadarn sydd ar gael i blant a theuluoedd yn enghraifft o ymarfer cadarnhaol, sydd wedi cyfrannu'n sylweddol tuag at sicrhau canlyniadau gwell i bobl.**

3.4 Mae'r awdurdod lleol yn rhoi trefniadau newydd ar waith ar gyfer gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth integredig, cymorth cynnar, gwaith cymdeithasol lleol (timau sy'n gweithio mewn cymunedau penodol), ymyriadau cynnar lleol a gwasanaethau ar ffiniau gofal. **Mae'r newid cadarnhaol hwn yn helpu i wella canlyniadau i bobl gan leihau'r galw am wasanaethau statudol ar yr un pryd.** Mae hyn yn creu capasiti i ganolbwyntio mwy ar safonau ymarfer ar gyfer plant y mae angen gofal a chymorth arnynt. Yn y cyd-destun hwn, mae'r ymarferwyr yn cyflawni dyletswyddau statudol yn rheolaidd ac mae prosesau amddiffyn plant yn bodloni gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar y cyfan.

3.5 Caiff gwelliannau i ansawdd ymarfer eu hysgogi gan gynllun gweithredu pum cam ar gyfer methodoleg Arwyddion Diogelwch. Mae Arwyddion Diogelwch yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion a gwerthoedd sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau, yn seiliedig ar gryfderau ac yn rhoi pwyslais ar ddiogelwch[2]. Er bod ymarfer yn amrywio o hyd, mae'r arweinwyr yn gweithio gyda staff i feithrin sgiliau a hyder ac mae ymarfer yn fwy cyson. Er y bydd yn cymryd amser i roi'r newid sefydliadol hwn ar waith, mae'r ymarferwyr yn meithrin dealltwriaeth a rennir o safonau ymarfer. Dylai'r awdurdod lleol gryfhau trefniadau gweithredu drwy ganolbwyntio mwy ar helpu asiantaethau partner i ddeall a rhoi dulliau gweithredu ar waith o fewn eu sefydliadau eu hunain. Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o'r mater hwn ac mae gan y Prif Swyddog ar gyfer trawsnewid gynlluniau i gryfhau strategaethau cyfathrebu a chyfleoedd hyfforddi, gan weithio ar y cyd ag asiantaethau partner.

3.6 Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr wedi dangos ymrwymiad a ffocws parhaus ar sicrhau gwelliannau. Ategir hyn gan gydberthnasau adeiladol â phartneriaid a rhaglen wedi'i chomisiynu o gyngor annibynnol a gwaith sicrhau ansawdd. O'u cyfuno â gweithgareddau sicrhau ansawdd cadarn, mae hyn yn rhoi sicrwydd y caiff meysydd i'w gwella eu nodi a'u monitro mewn ffordd amserol.

4. Canfyddiadau Allweddol a Thystiolaeth

Nodir isod ganfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pobl – Gwnaethom ofyn:

[2] What Is Signs of Safety? - Signs of Safety

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y gall pobl leisio barn ar eu bywydau a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt? Pa mor effeithiol yw'r arweinwyr o ran datblygu gweithlu medrus, cymwysedig a sefydlog a gaiff ei gefnogi?

Cryfderau

4.1 Mae'r awdurdod lleol wedi cydgynhyrchu strategaeth rhianta corfforaethol gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, yn Fforwm Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r bobl ifanc hyn wedi cael eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o ddethol blaenoriaethau a dylunio a llunio cynnwys y strategaeth. Mae dull gweithredu 'dim amdanoch chi heboch chi' wedi cael ei fabwysiadu ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gymryd rhan ystyrlon ym mhob agwedd ar rianta corfforaethol.

4.2 Er mwyn gwella ansawdd ymarfer, rhaid cael gweithlu digonol ac effeithlon. Yn 2023 roedd 41% o weithlu'r awdurdod lleol yn staff asiantaeth, gan gynnwys tîm asiantaeth a reolir a fu'n gweithio am dros ddwy flynedd. Drwy wneud gwelliannau parhaus, mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gweithio gyda llai nag 20 o blant fel arfer. Roedd 'Ystyried y Teulu' wedi rhoi blaenoriaeth i raglen 'Tyfu eich Hun' ar gyfer gwaith cymdeithasol a chaiff 12 Gweithiwr Cymdeithasol sydd Newydd Gymhwyso eu penodi'r flwyddyn nesaf. Roedd yr arweinwyr wedi ystyried cyfleoedd i gynnal ymgyrchoedd marchnata ehangach, gan gynnwys recriwtio rhyngwladol, a chawsant wobr gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2025 am ddatblygu ac ysbrydoli'r gweithlu[3]. Ym mis Awst 2024, llwyddodd yr awdurdod lleol i adael y trefniant ar gyfer tîm asiantaeth a reolir ac roedd staff asiantaeth yn cyfrif am 7% o'r gweithlu ym mis Mehefin 2025. **Mae hyn yn newid sylweddol sy'n dangos bod y strategaeth recriwtio a chadw staff yn cyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen.**

4.3 Mae bron pob aelod o'r staff yn dweud bod newid diwylliant sylweddol wedi digwydd yn ystod y ddwy neu dair blynedd diwethaf. Caiff hyn ei nodweddu gan ddull gweithredu sy'n fwyfwy myfyriol a chydweithredol ym mhob tîm. Mae'r newid hwn wedi gwella moral y staff, ac mae'r timau wedi datblygu ymdeimlad cryf o gydweithio a diben cyffredin. Cafwyd ymateb hynod o gadarnhaol i'n harolwg staff gyda 86% yn dweud y byddent yn argymell y Cyngor fel lle i weithio i'w ffrindiau. Caiff yr arweinwyr eu disgrifio fel arweinwyr tosturiol ac ymrwymedig sy'n canolbwyntio ar lesiant y gweithlu. **Mae'r ymarfer cadarnhaol hwn wedi gwella prosesau recriwtio a chadw'r gweithlu a sefydlogrwydd y gweithlu yn sylweddol.**

4.4 Mae'r gweithlu yn cynnwys llawer o weithwyr cymdeithasol rhyngwladol ac newydd gymhwyso, y mae angen amser a chymorth arnynt i fagu profiad. Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi proses ymgynghori ar achosion ar waith, sy'n helpu'r ymarferwyr i gael cymorth goruchwylio ac ymgynghori gan uwch-reolwyr mewn

[3] Seremoni wobrwyo Gwobrau 2025, enillwyr a'r… | Gofal Cymdeithasol Cymru

sefyllfaoedd cymhleth. Mae rheolwyr gweithredol yn cwblhau sesiynau goruchwylio personol mewn ffordd amserol ac mae timau'n defnyddio Arwyddion Diogelwch a lleoedd myfyriol yn gyson i hyrwyddo ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Gellid gwella ansawdd trefniadau goruchwylio achosion ymhellach drwy roi mwy o ffocws ar brofiadau personol y plentyn, camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, camau gweithredu dilynol, a thystiolaeth o drafodaethau myfyriol.

4.5 Mae gan arweinwyr a rheolwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r gwasanaeth a'r meysydd i'w gwella. Roedd yr awdurdod lleol wedi rhoi system ar waith i graffu a monitro cydymffurfiaeth yn fanylach yn dilyn digwyddiadau critigol ac adolygiadau ymarfer plant. Ers hynny, mae trefniadau goruchwylio wedi cael eu cryfhau ymhellach gyda ffocws cynyddol ar ansawdd ac mae fframwaith sicrhau ansawdd yn helpu i oruchwylio safonau ymarfer y cytunwyd arnynt, gwaith myfyrio a dysgu. **Mae'r ymarfer cadarnhaol hwn yn cryfhau gallu'r awdurdod lleol i werthuso sut mae gwasanaethau yn effeithio ar ganlyniadau pobl.**

4.6 Mae gan yr ymarferwyr agwedd gadarnhaol tuag at hyfforddiant a'r ffordd y mae'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol. Caiff hyfforddiant ar Arwyddion Diogelwch ei werthfawrogi, ac mae'r adran hyfforddi yn gwella ymarfer mewn ffordd arloesol. Er enghraifft, mae dull Arwyddion Diogelwch wedi cael ei addasu i'w ddefnyddio fel dull amgen ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, o dan y teitl Arwyddion Sefydlogrwydd. **Caiff yr ymarfer cadarnhaol hwn ei werthfawrogi gan y staff ac mae'n helpu i ddatblygu effeithiolrwydd y gweithlu.**

4.7 Yn gynyddol, mae'r ymarferwyr yn ceisio llais y plentyn ac yn gwrando arno, ac mae'r arweinwyr wedi parhau i ganolbwyntio ar wella ymarfer yn y maes hwn. Gwelsom enghreifftiau da o Arwyddion Diogelwch yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlant. Mae hyn yn cynnwys defnydd rheolaidd o adnoddau gwaith uniongyrchol, fel ‘tri thŷ’ a ‘geiriau a lluniau’. Gellid cryfhau ymarfer drwy sicrhau cysondeb a chanolbwyntio mwy ar sut mae llais y plentyn yn effeithio ar asesiadau, cynlluniau a chanlyniadau.

<u>Meysydd i'w gwella</u>

4.8 Mae methodoleg Arwyddion Diogelwch yn hyrwyddo ymarfer sy'n seiliedig ar gydberthynasau a chryfderau. Mae'r arweinwyr yn rhoi'r newid sefydliadol hwn ar waith mewn camau ac mae gwelliannau parhaus i'w gweld. Fodd bynnag, mae ymarfer yn amrywio o hyd ac mae rhai timau wedi gwneud mwy o gynnydd gyda gwelliannau nag eraill. Mae hyn yn golygu bod rhai plant a theuluoedd yn profi effaith gwelliannau i raddau mwy nag eraill. Er enghraifft, pan fo trefniadau diogelu'n gweithio'n dda, mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'r teulu cyfan a'u rhwydwaith i gydgynhyrchu cynlluniau diogelwch a lleihau risgiau

mewn ffordd amserol. Pan na fyddant yn gweithio cystal, ni chaiff cryfderau teuluoedd eu nodi na'u defnyddio, a chaiff y cynlluniau eu harwain gan y gwasanaeth. Mewn rhai ffeiliau, gwelsom hefyd y dylai tadau fod wedi cael eu cynnwys yn gynt mewn asesiadau a chynlluniau. **Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o'r mater hwn a dylent barhau i ganolbwyntio ar sicrhau ymarfer cyson, ar draws pob aelod o staff a thîm.**

Atal – Gwnaethom ofyn:
I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn cael ei atal ac yn sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl? Pa mor effeithiol yw datblygiadau gwasanaeth o ran sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir?

Cryfderau

4.9 Mae'r tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth yn gyfrifol am gael cysylltiadau ac atgyfeiriadau, rhoi cyngor a chymorth, asesu anghenion a chynnal ymholiadau diogelu. Mae MASH yn gweithio fel un pwynt cyswllt ar gyfer pob pryder diogelu newydd ac yn dwyn staff o'r Cyngor, addysg, yr heddlu a gwasanaethau iechyd ynghyd. Mae'r tîm gwybodaeth, cyngor a chymorth a MASH yn cydweithio'n agos gan ganolbwyntio ar wella mynediad a llwybrau at gymorth. **Mae'r gwaith partneriaeth a'r cydweithio rhwng asiantaethau yn MASH yn enghraifft o ymarfer cadarnhaol.**

4.10 Yn 2023-24, datblygodd yr arweinwyr eu cynllun strategol tair blynedd ar gyfer gwasanaethau plant a theuluoedd, o dan y teitl 'Ystyried y Teulu'. Roedd hwn wedi ymrwymo'r Cyngor i gyflwyno trefniadau newydd ar gyfer gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth integredig, cymorth cynnar, gwaith cymdeithasol lleol, ymyriadau cynnar lleol a gwasanaethau ar ffiniau gofal. Rhoddwyd strategaeth gomisiynu ar waith i ysgogi gwelliant a buddsoddiad yn y continwwm cymorth hwn. Cafodd gwasanaethau cymorth i deuluoedd eu hintegreiddio â Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ond y gyfarwyddiaeth addysg oedd yn gyfrifol am wasanaethau cymorth i ddisgyblion ac ymgysylltiad ag addysg o hyd.

4.11 Er bod effaith y newidiadau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, mae'r arwyddion cynnar yn gadarnhaol. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2023-2024, bu gostyngiad o 16% yn nifer y plant a ddyrannwyd i dimau arbenigol, gan gynnwys gostyngiad o 48% yn nifer y dyraniadau amddiffyn plant. Dywedodd yr ymarferwyr fod hyder wedi cynyddu a bod penderfyniadau gwell yn cael eu gwneud drwy rannu arbenigedd a chydweithio'n agosach. Yn bwysicach, mae arolygon ymadael yn dangos bod bron pawb sy'n cael gwasanaethau cymorth cynnar yn teimlo eu bod mewn sefyllfa well i wneud newidiadau cadarnhaol, gan ddweud eu bod yn fwy gwydn, bod ganddynt lesiant emosiynol a chydberthnasau teuluol gwell, a'u bod yn fwy hyderus i gefnogi datblygiad eu plentyn. Yn yr un modd, llwyddwyd i atal 92% o blant a oedd yn cael cymorth

gan wasanaethau ar ffiniau gofal rhag ymuno â'r system ofal. **Mae hyn yn enghraifft o ymarfer cadarnhaol sy'n dangos bod anghenion yn cael eu diwallu mewn ffordd amserol gan leihau'r angen am ofal a chymorth ar yr un pryd.**

Meysydd i'w gwella

4.12 Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda phartner gwella i adolygu canlyniadau gwasanaeth a meysydd i'w datblygu. Dangosodd y broses hon fod angen i wasanaethau cymorth i deuluoedd symleiddio systemau, datblygu cymorth mwy dwys wedi'i dargedu a diwygio cymorth rhianta. Mae rhai swyddi allweddol gwag a bylchau yn nigonolrwydd gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau i'r glasoed, iechyd meddwl, llesiant emosiynol, niwroamrywiaeth, ac mae swyddi gwag ar gyfer gweithwyr camfanteisio arbenigol a'r gwasanaeth cymorth i deuluoedd integredig hefyd. Mae'r bylchau hyn wedi arwain at oedi cyn bod pobl yn cael cymorth amserol, a gwnaethom nodi enghreifftiau lle gellid gwella gwaith cynllunio wrth gefn ar gyfer dod â chymorth i ben. **Mae ymgyrch recriwtio ar waith a dylai'r arweinwyr barhau i ddatblygu gwasanaethau yn unol â'u Strategaeth Comisiynu Cymorth i Deuluoedd. Dylai'r awdurdod lleol hefyd adolygu ei strategaeth gyfathrebu er mwyn sicrhau bod staff a phartneriaid yn glir ynglŷn â'r gwasanaethau a'r llwybrau atgyfeirio sydd ar gael.**

4.13 Mae'r arweinwyr yn gweithio drwy heriau lleol a chenedlaethol er mwyn datblygu digon o leoedd ar gyfer llety â chymorth a gwasanaethau rheoleiddiedig. Mae Strategaeth Comisiynu Plant, Pobl Ifanc a Phontio 2023-2028 yn amlinellu cynlluniau ar gyfer gwella ond rhagwelir bwlch mewn digonolrwydd o hyd ar ôl 2028. Mae prinder cyffredinol gofalwyr maeth a phrinder penodol gofalwyr maeth medrus a chartrefi gofal preswyl a all ofalu am y plant sydd â'r anghenion mwyaf, yn peri pryder arbennig. **Dylai'r arweinwyr barhau i weithredu'r cynlluniau a nodir yn strategaeth gomisiynu'r awdurdod lleol, er mwyn helpu i wneud gwelliannau amserol.**

4.14 Er mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y defnyddir lleoliadau sy'n gweithredu heb gofrestriad ac er y gwneir llai o ddefnydd ohonynt, mae nifer bach o blant wedi'u lleoli mewn gwasanaethau sy'n darparu gofal a chymorth nad ydynt wedi'u cofrestru fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau na chaiff plant eu lleoli mewn gwasanaethau sydd heb eu cofrestru a rhaid iddo barhau i ymdrechu i nodi lleoliadau cofrestredig, addas.**

4.15 Mae digonolrwydd lleoliadau gofal maeth yn dibynnu'n rhannol ar y cymorth sydd ar gael i ofalwyr a'r ffordd y mae'r awdurdod lleol yn mynd ati i geisio cadw gofalwyr maeth. Mae gan yr arweinwyr gynlluniau i wella dulliau gweithredu drwy gymorth paru, hyfforddi a lleoli. Mae'r gwasanaeth maethu a'r Tîm Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal (CECT) wedi penodi rheolwyr parhaol yn

ddiweddar, ac mae ymarfer a moral wedi gwella yn ôl yr ymarferwyr. Er bod y gwasanaeth maethu a CECT yn cydweithio'n gynyddol i wneud lleoliadau'n fwy sefydlog, mynegodd gofalwyr maeth farn gymysg am effaith a chynaliadwyedd y newidiadau hyn. **Dylai'r arweinwyr sicrhau bod y gwasanaeth maethu a CECT yn parhau i gael sylw blaenoriaethol, er mwyn sicrhau bod gwelliannau amserol yn cael eu gwneud.**

Llesiant – Gwnaethom ofyn:
I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn diogelu pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod? Pa mor effeithiol yw datblygiadau gwasanaeth o ran mynd i'r afael â meysydd â blaenoriaeth ar gyfer diogelu plant yn well?

Cryfderau

4.16 Mae'r awdurdod lleol yn ymateb i ymholiadau diogelu mewn ffordd amserol ac yn ymateb i atgyfeirwyr fel sy'n ofynnol gan Weithdrefnau Diogelu Cymru. Caiff partneriaid eu gwahodd yn gyson ac maent yn cyfrannu at y broses ddiogelu. Mae bron pob plentyn yn cael ymweliad yn unol â gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru, ac mae cynadleddau amddiffyn plant ac adolygiadau o blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn amserol. Mae'r awdurdod lleol wedi mynd i'r afael â'r gwelliannau gofynnol a nodwyd yn JICPA ac yn sicrhau bod cofnodion a chynlluniau yn cael eu rhannu yn dilyn y cyfarfodydd hyn. Gellid cryfhau grwpiau craidd ymhellach pe bai cyfarfodydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb bob tro a phe bai mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddatblygu'r cynllun amlinellol o'r gynhadledd.

4.17 Mae'r ymarferwyr yn nodi ac yn cynnig cymorth eirioli yn rhagweithiol gan amlaf. Mae'n gadarnhaol bod yr arfer o gynnig cymorth eirioli yn ehangu a chaiff eiriolaeth i rieni ei ystyried bellach ochr yn ochr ag eiriolaeth i blant. Gwelsom enghreifftiau o Swyddog Adolygu Annibynnol yn gwirio ac yn sicrhau bod plant yn cael y cynnig rhagweithiol. Er gwaethaf hyn, mae'r nifer sy'n manteisio ar eiriolaeth ychydig yn is na'r disgwyl ac mae'r arweinwyr yn gweithio gyda'r ymarferwyr i ddeall y mater hwn yn well. Gwnaethom nodi enghreifftiau lle byddai wedi bod yn briodol cynnig eiriolaeth i rieni ond ni chafodd hyn ei ystyried. Fodd bynnag, mae eiriolaeth anffurfiol ar gael bron bob amser i rieni yn y broses ddiogelu pan na chaiff eiriolaeth ffurfiol ei chynnig neu'i derbyn.

4.18 Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu tîm cyswllt canolog sy'n cefnogi cyswllt dan oruchwyliaeth i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a phlant sy'n destun y broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Mae'r adnodd pwrpasol hwn yn gwella amseroldeb ac ansawdd cysylltiadau'n sylweddol ac yn creu capasiti i'r ymarferwyr ganolbwyntio ar gynllunio gofal a chymorth.

4.19 Mae'r arweinwyr wedi datblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Dysgu effeithiol i fonitro a gwerthuso ymarfer yn systematig. Nod y fframwaith yw cefnogi

gwaith dysgu a datblygu, gwella ymarfer a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl. Elfen hanfodol o'r fframwaith yw hyrwyddo chwilfrydedd proffesiynol a meddwl yn feirniadol drwy gyfrwng adborth ystyrlon gan yr ymarferwyr, partneriaid a phobl â phrofiad bywyd. Er enghraifft, mae staff yn cwblhau ymholiadau gwerthfawrogi[4], ac mae'r arweinwyr wedi mabwysiadu'r dull Newid Mwyaf Sylweddol[5] yn ddiweddar i glywed straeon pobl a meithrin dealltwriaeth o sut a phryd mae newidiadau yn digwydd i bobl. **Mae'r ymarfer cadarnhaol hwn yn cael ei gyflwyno i bob tîm a dylai'r arweinwyr barhau i gefnogi'r dull lefel uchel hwn o ddysgu a sicrhau ansawdd.**

<u>Meysydd i'w Gwella</u>

4.20 Mae'r arweinwyr yn ymwybodol o bryderon cynyddol am gamfanteisio ar blant ac effaith niwed ar-lein. Cafodd strategaeth ranbarthol ei chydgynhyrchu â phobl a phartneriaid ym mis Ebrill 2025. Cafodd canllawiau ymarfer rhanbarthol, hyfforddiant, paneli atal ac adnoddau eu creu er mwyn rhoi'r strategaeth ar waith. Mae gan gynllun amlasiantaeth lleol gamau gweithredu clir a strwythur llywodraethu i oruchwylio gwelliannau. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar gamfanteisio ar gyfer y gweithlu a phartneriaid amlasiantaeth. Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn tair swydd arbenigol, a fydd yn cryfhau'r ymateb strategol a gweithredol i'r pryderon hyn. Mae hyn yn welliant sylweddol yn dilyn JICPA 2023, ac mae'r datblygiadau hyn yn dechrau cryfhau ymarfer a goruchwyliaeth gan reolwyr. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth wedi ymsefydlu'n llwyr eto ac mae anghysondebau o hyd o ran sut y mae asiantaethau yn nodi achosion o gamfanteisio. **Dylai'r arweinwyr barhau i sefydlu dulliau cyson o ddiogelu plant rhag camfanteisio. Dylai hyn gynnwys parhau i ystyried cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant amlasiantaeth, myfyrio a rhannu gwersi i'w dysgu.**

4.21 Er bod yr awdurdod lleol yn cofnodi demograffeg ac unigolion cyswllt yn gyffredinol, gwnaethom ganfod nad oedd cofnodion achosion yn cael eu cwblhau mewn ffordd amserol a chyson bob amser. Dylai cofnodion fod yn gywir, yn wrthrychol, yn ddealladwy, yn gyflawn ac yn gyfredol. Dylent adlewyrchu a pharchu barn yr unigolyn dan sylw yn llawn, cynnwys dadansoddiad ar lefel briodol i gefnogi'r penderfyniadau a wneir, a dangos tystiolaeth o farn broffesiynol a phrosesau gwneud penderfyniadau cadarn. **Dylai'r arweinwyr weithio gyda'r ymarferwyr i ddatblygu safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer cadw cofnodion a'u rhoi ar waith.**

4.22 Er bod llawer o asesiadau a chynlluniau yn rhoi crynodeb manwl o ymyriadau gwasanaeth a chamau nesaf, ni cheir digon o ffocws ar gymesuredd a dadansoddi anghenion. Gellid cryfhau rhai asesiadau a chynlluniau drwy ganolbwyntio mwy ar risg, niwed, cryfderau, diogelwch, llais y plentyn, a

[4]Dull seiliedig ar gryfderau o greu newid. Mae hyn yn golygu gwrando ar brofiadau pobl, ystyried beth sy'n gweithio'n barod, a sut i adeiladu ar hynny.
[5] Deep handbook Eng.pdf

chanlyniadau. Mae'n arbennig o bwysig bod y plentyn ac aelodau pwysig o'r teulu yn cael eu cynnwys yn gyson yn y broses hon a bod cynlluniau'n cael eu cydgynhyrchu. Mae Arwyddion Diogelwch yn rhoi cyfle i gyfarfodydd rhwydwaith teuluol a chynlluniau diogelwch leihau achosion o waethygu drwy'r dull gweithredu hwn sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae'r arweinwyr yn gweithio gyda staff i feithrin sgiliau a hyder ac mae ymarfer yn fwy cyson. **Dylai'r arweinwyr barhau i adolygu ansawdd asesiadau a chynlluniau a rhannu gwersi a ddysgwyd er mwyn helpu i wella ymarfer.**

4.23 Mae'r gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol yn treialu dull Arwyddion Diogelwch mewn cynadleddau achos amddiffyn plant. Mae hyn yn rhoi cyfle i wneud proses y gynhadledd yn fwy cynhwysol ac yn fwy seiliedig ar gryfderau. Caiff y rhieni/gofalwyr eu hannog yn weithredol i fod yn bresennol a chyfrannu. Fodd bynnag, gellid gwrando ar lais y plentyn, ei brofiad bywyd a'i ddymuniadau a'i deimladau mewn ffordd fwy effeithiol. **Yn dibynnu ar eu hoedran a'u dealltwriaeth, rhaid gwahodd plant a'u helpu i gymryd rhan mewn cyfarfodydd a gynhelir yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru; a dylai pob cyfarfod a gynhelir yn unol â phrosesau amddiffyn plant ddechrau â stori'r plentyn[6].**

4.24 Nid roddir digon o bwyslais ar sicrhau bod cofnodion ar gyfer cynadleddau achos yn ddealladwy i aelodau o'r teulu. **Mae'r cofnod ysgrifenedig o gynhadledd yn ddogfen waith hollbwysig a dylai'r arweinwyr sicrhau bod cofnodion yn bodloni gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru.**

4.25 Mae'r gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol yn bwriadu adolygu'r peilot Arwyddion Diogelwch a bydd yn gofyn am farn teuluoedd fel rhan o'r broses hon. **Dylai'r arweinwyr barhau i sicrhau bod gwelliannau i broses y gynhadledd yn cael eu llunio ar y cyd â phobl.**

Partneriaeth – Gwnaethom ofyn:
I ba raddau y mae partneriaid yn cydweithio i sicrhau canlyniadau cynaliadwy o ansawdd uchel i bobl? I ba raddau y mae partneriaethau strategol wedi parhau i gydweithio er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus?

Cryfderau

4.26 Gwelsom waith partneriaeth cydweithredol ar lefelau gweithredol a strategol. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cyflawni a'u cynnal a bod llesiant plant a theuluoedd yn cael ei hyrwyddo a'i amddiffyn yn gyson. **Mae gan yr arweinwyr rwydwaith cymorth proffesiynol cadarnhaol y gallant ei ddefnyddio i gael arbenigedd, gwybodaeth, cymorth a her adeiladol.**

[6] Yr adroddiad llawn - Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant TERFYNOL I'W GYHOEDDI

4.27 Mae trefniadau partneriaeth effeithiol ac aeddfed rhwng asiantaethau yn cefnogi ymateb amlasiantaeth cydgysylltiedig i bryderon diogelu. **Mae ffocws cadarnhaol ar ddiogelu ar draws yr awdurdod lleol. Caiff diwylliant o ddiogelu ei hyrwyddo fel cydgyfrifoldeb i bawb.**

4.28 Mae'r arweinwyr wedi ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd drwy weithgareddau arolygu. Fel rhan o'r ymateb cychwynnol, rhoddwyd blaenoriaeth i welliannau gofynnol o ran sefydlogrwydd y gweithlu a threfniadau diogelu. Ymhlith y blaenoriaethau dilynol roedd gwelliannau i ddarpariaeth cymorth cynnar ac atal, gwasanaethau maethu a threfniadau cyswllt. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid i roi Arwyddion Diogelwch ar waith a chryfhau trefniadau a gomisiynwyd. Er bod rhai gwelliannau yn fwy sefydledig nag eraill, mae'r arweinwyr wedi parhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau ac wedi ceisio cynnal cynnydd. **Aethpwyd ati i reoli newid mewn ffordd gadarnhaol.**

4.29 Mae'r awdurdod lleol a phartneriaid amlasiantaeth wedi datblygu dealltwriaeth well o'r trothwy ar gyfer atgyfeiriadau at MASH. Mae MASH wedi datblygu llinell gyngor i weithwyr proffesiynol fel y gallant drafod pryderon diogelu. **Dywedodd partneriaid wrthym fod y llinell gyngor i weithwyr proffesiynol wedi cael effaith gadarnhaol. Mae hyn yn enghraifft o ymarfer cadarnhaol.**

4.30 Mae partneriaid gweithredol yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac mae hyder yn y penderfyniadau a wneir ym maes diogelu. Caiff hyn ei ategu gan systemau uwchgyfeirio effeithiol a diwylliant iach o her broffesiynol. Er enghraifft, mae cyfarfodydd rhyngwyneb MASH a gynhelir bob pythefnos a Grŵp Gweithredol ar y Cyd (JOG) yn cynnig cyfleoedd i fyfyrio a darparu her adeiladol mewn ffordd amlasiantaeth. **Mae hyn yn enghraifft o ymarfer cadarnhaol a dylai'r arweinwyr barhau i gryfhau'r trefniadau hyn.**

<u>Meysydd i'w gwella</u>

4.31 Mae'r awdurdod lleol wedi symud y mwyafrif o wasanaethau cymorth cynnar o'r Gyfarwyddiaeth Addysg i'r Gyfarwyddiaeth Plant a Theuluoedd. Mae'r newid hwn wedi cael ei groesawu gan y rhan fwyaf o'r staff ac mae'n helpu i wella trafodaethau am atal a throthwyon ar gyfer gofal a chymorth. Fodd bynnag, byddai dealltwriaeth well o'r newidiadau hyn yn fuddiol i rai aelodau o'r staff. **Dylai'r arweinwyr barhau i weithio gyda phartneriaid addysg i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o rolau a chyfrifoldebau.**

4.32 Mae canllawiau rhanbarthol drafft ar gael ar drothwyon ar gyfer gofal a chymorth. Cafodd y rhain eu datblygu gyda phartneriaid amlasiantaeth ac maent ar fin cael eu cyhoeddi. **Dylai'r arweinwyr barhau i weithio gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol i weithredu'r canllawiau ar drothwyon mewn ffordd amserol a chadarn.**

4.33 Nododd partneriaid rywfaint o ymarfer anghyson mewn perthynas â chamfanteisio, pryderon proffesiynol, a'r ymateb gweithredol i Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. **Dylai'r arweinwyr barhau i weithio gyda phartneriaid a cheisio adborth ar y meysydd ymarfer penodol hyn, er mwyn sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud mewn ffordd amserol.**

4.34 Byddai rhai partneriaid yn croesawu mwy o hyfforddiant amlasiantaeth ar Arwyddion Diogelwch, camfanteisio, trothwyon, a diogelu. **Dylai'r arweinwyr barhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu dull gweithredu y cytunir arno mewn perthynas ag ymarfer a hyfforddiant amlasiantaeth.**

4.35 Mae Tîm Dyletswydd Argyfwng Cwm Taf Morgannwg yn gwasanaethu Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Rhaid i'r gwasanaeth roi cymorth mewn argyfwng i oedolion agored i niwed, plant mewn angen a'u teuluoedd.Cyfeiriodd partneriaid ac ymarferwyr at heriau mewn perthynas â digonolrwydd staff, cadw cofnodion ac ymarfer. **Dylai'r arweinwyr weithio gyda phartneriaid rhanbarthol i adolygu'r trefniadau hyn a hyrwyddo gwelliannau mewn ffordd amserol.**

5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

6. Methodoleg

Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad drwy ystyried profiadau 24 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 21 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain tri
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill
- Gwnaethom ymgysylltu ag 8 o bobl sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws
- Gwnaethom ymgysylltu â 48 o gyflogeion yr awdurdod lleol (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gweithredol a strategol,

pennaeth y gwasanaeth, a'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol) drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws
- Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau goruchwylio'r staff
- Gwnaethom arsylwi ar sesiynau myfyrio a chynhadledd achos amddiffyn plant gychwynnol
- Gwnaethom edrych ar y dogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad
- Gwnaethom ddosbarthu holiaduron i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol. Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at y Archwiliad Gwelliant hwn yn Gymraeg.

8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,

Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru

Atodiad 1

Rhestr Terminoleg

Term	Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau
Rhaid	Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo gymryd camau.
Dylai	Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol.
Ymarfer cadarnhaol	Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol.
Atal ac Ymyrryd yn Gynnar	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n ceisio sicrhau bod modd cael cymorth er mwyn atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a chynnal llesiant unigol a chyfunol yn well. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu.
Llais a Rheolaeth	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi'r unigolyn a'i anghenion wrth wraidd ei ofal a'i gymorth; a rhoi llais a rheolaeth iddo dros ei ganlyniadau. Gall hyn ei helpu i gyflawni ei ganlyniadau llesiant a'r pethau sydd bwysicaf iddo.
Llesiant	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod pobl yn profi llesiant ym mhob rhan o'u bywyd. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
Cydgynhyrchu	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn

	gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau.
Gwaith amlasiantaethol	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth.
Yr hyn sy'n bwysig	Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed.

Atodiad 2

Tabl Diffiniadau o Niferoedd

Terminoleg	**Diffiniad**
Bron pob un	Heb fawr ddim eithriadau
Rhan fwyaf	99% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	Dros 60%
Hanner	50%
Tua hanner	Yn agos at 50%
Lleiafrif	Llai na 40%
Ychydig	Llai nag 20%
Ychydig iawn	Llai na 10%